Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaethau Preswyl Bryn y Cae ar gyfer Pobl Hŷn**

**Cae Bracla**
**Bracla**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 2HF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwasanaethau Preswyl Bryn y Cae ar gyfer pobl hŷn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 37 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Mawrth 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

rhoi cymorth i oedolion ag anghenion gofal personol a'u llesiant meddyliol, corfforol ac emosiynol.  Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da iawn gan staff sydd wedi cael hyfforddiant addas ac sy'n cael eu cefnogi.  Mae'r cynlluniau personol yn nodi manylion am eu hanghenion gofal unigol a'u canlyniadau personol. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn monitro cynnydd y bobl wrth gyflawni eu nodau personol, gan eu galluogi i gymryd risgiau cadarnhaol ond i gadw'n ddiogel ar yr un pryd. Mae'r bobl yn canmol y cydberthnasau cadarnhaol sydd ganddynt â'r staff a'r tîm rheoli. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac maent yn hapus yn eu rolau. Cynhelir prosesau da ar waith ar gyfer sicrhau hylendid a rheoli heintiau er mwyn lleihau risgiau croes-heintio. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff yn hwylus ac mae'n amlwg bod cyflenwadau ar gael yn y gwasanaeth. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol weithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith ac mae'n cyflawni ei ddyletswyddau rheoliadol.

## Llesiant

Mae lefelau llesiant y bobl sy'n byw yng nghartref Bryn y Cae ac sy'n defnyddio'r cyfleusterau yno yn uchel. Cânt gymorth i fynd allan i'r gymuned, i gynnal cydberthnasau â'u teulu a rhwydweithiau eraill, neu i gymryd rhan mewn pethau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae rhaglen weithgareddau rhagorol ar waith sy'n cynnwys gweithgareddau yn y cartref a chysylltiadau â'r gymuned leol megis ysgolion a chapel lleol. Gall y bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp amrywiol yn y cartref gan gynnwys celf a chrefft, tai chi, cwisiau, telynores, cantorion, ac mae salon strin gwallt a lolfa hel atgofion ar gael iddynt hefyd. Gwnaethom wylio sesiwn bingo. Roedd llawer o chwerthin ac roedd yn llwyddo i gynnwys pawb a oedd yn cymryd rhan. Roedd y bobl yn siarad yn llawn cyffro ac emosiwn am ymweliadau teulu, am fynychu Cyngerdd Carolau Nadolig yr ysgol leol ac am yr adegau pan fydd y plant hynny yn ymweld â'r cartref. Soniodd eraill am deithiau i Borthcawl a Sain Ffagan y gwnaethant eu mwynhau. Caiff digwyddiadau arbennig eu dathlu gan gynnwys pen-blwyddi, y Coroni a Dydd Gŵyl Dewi. Mae ymdrech fawr yn cael ei gwneud ar hyn o bryd i gynllunio gweithgareddau dros y Pasg, gwerthiant cacennau arfaethedig, a theithiau allan yn yr awyr agored pan fydd y tywydd yn gwella. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cyfleoedd seibiant tymor byr ac mae ganddo Uned Ailalluogi er mwyn helpu'r bobl i gyflawni eu nodau personol a chynnal eu llesiant emosiynol a chorfforol.

Mae amseroedd bwyd yn brofiad cadarnhaol iawn. Mae'r ardaloedd bwyta yn olau ac wedi'u cynllunio'n dda, a gwelsom y bobl a'r staff yn tynnu coes ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol.  Mae ffrwythau ffres, byrbrydau a diodydd ar gael drwy gydol y dydd, ac roedd y pryd bwyd a welsom yn ystod amser cinio yn edrych ac yn arogli'n flasus. Caiff y bobl ddewis o fwyd, a diodydd poeth, oer ac alcoholig.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi hawliau a dewisiadau'r bobl yn gyson ac i safon uchel. Mae anghenion unigol y bobl yn llywio eu cynllun personol, a chaiff newidiadau eu cofnodi yn y nodiadau dyddiol. Gofynnir iddyn nhw a'u perthnasau am eu dymuniadau, gan eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal, a'u cefnogi i gyflawni canlyniadau ystyrlon.

Mae anghenion y bobl a'r risgiau i ddiogelwch a llesiant yn cael eu monitro a'u dogfennu. Mae'r asesiadau risg yn cynnwys trothwyon sy'n nodi pryd y dylai'r gweithwyr cymorth ymyrryd. Caiff y cynlluniau gofal eu hadolygu er mwyn monitro cynnydd y bobl wrth gyflawni eu nodau a'u dyheadau.

Mae'r adborth am safon y gofal a chymorth yn gyson dda iawn. Mae gan y bobl a'u teuluoedd gydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n gyfarwydd iddynt ac sy'n eu hadnabod yn dda. Mae gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol am y gwasanaeth a'r gwasanaethau eirioli sydd ar gael ar gael i'r bobl mewn gwahanol ieithoedd.

Mae systemau diogelu'r gwasanaeth yn adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol y llywodraeth ac yn diogelu'r bobl rhag niwed. Mae polisi diogelu ar waith er mwyn rhoi arweiniad i'r staff. Mae'r gweithwyr yn cael hyfforddiant arbenigol yn ychwanegol at yr hyfforddiant craidd i'w

helpu i ddiwallu anghenion unigol y bobl. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cadw'r bobl yn ddiogel ac yn eu cefnogi'n dda.

## Gofal a Chymorth

Mae ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl sy'n byw yng nghartref Bryn y Cae yn arbennig o dda. Mae'r gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth eang o wybodaeth am y bobl cyn iddynt symud i mewn i'r gwasanaeth. Caiff y wybodaeth ei chasglu drwy broses cyn derbyn drylwyr sy'n cynnwys y person, y teulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn datblygu cynllun cymorth cychwynnol. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn darparu canllawiau clir i'r gweithwyr cymorth o ran anghenion unigolion a'r canlyniadau a gynlluniwyd ar eu cyfer. Caiff y rhain eu hadolygu fel arfer gan gynnwys y bobl lle y bo'n bosibl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhan o'u gofal er mwyn monitro cynnydd a gwneud newidiadau fel sy'n ofynnol.

Mae'r cynlluniau yn glir, yn adlewyrchu anghenion unigol ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi'r bobl. Lle y bo'n bosibl, caiff y bobl a/neu eu perthnasau eu cynnwys wrth ddatblygu eu cynllun. Mae asesiadau risg ar waith er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi i wneud eu dewisiadau eu hunain gymaint â phosibl ac i gadw'n ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol megis therapyddion galwedigaethol a thechnegwyr adsefydlu, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys ardal, meddygon teulu a thimau iechyd meddwl. Mae'r adborth gan weithwyr proffesiynol eraill yn gadarnhaol. Mae'r cyfathrebu'n dda a chaiff cyngor/cynlluniau eu dilyn.

Mae'r staff yn canmol yr hyfforddiant a'r sefydlu y maent yn eu cael, sy'n sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddarparu cymorth effeithiol a diogel i'r bobl. Maent yn hapus yn eu rolau ac yn teimlo bod y tîm rheoli yn eu cefnogi'n dda. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym ‘*I love it…feel part of the Team.’* A bod y rheolwr yn *'Great…really supportive.’*

Mae gan y bobl a'u perthnasau gydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'r tîm rheoli hefyd. Mae'r rhyngweithio rhwng y gweithwyr a'r bobl yn gynnes ac yn gyfeillgar. Dywedodd un person wrthym *'It’s lovely…my kids could never have found me a better place to live.’* Dywedodd person arall ‘*Perfect…I could not wish for better…I feel at home*.’ Hefyd, ysgrifennodd berthynas mewn llythyr ‘*I think everything here for residents is amazing and the staff are wonderful.’*

Gall y bobl gael cymorth â'u meddyginiaeth os bydd angen. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ac yn cael eu monitro'n rheolaidd i asesu eu cymhwysedd wrth roi meddyginiaeth. Mae polisi ar waith hefyd er mwyn rhoi arweiniad i'r staff. Cynhelir archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd er mwyn nodi unrhyw faterion a mynd i'r afael ag unrhyw gamau gweithredu.

Mae'r bobl yn canmol staff y gegin a'r bwyd yn y gwasanaeth. Mae bwydlen amrywiol a maethlon sy'n newid bob pedair wythnos, a luniwyd ar y cyd â'r bobl a'u perthnasau yn ystod cyfarfodydd preswylwyr. Mae'r bobl yn cael dewis ac ystyrir deietau gwahanol. Mae ffrwythau, byrbrydau a diodydd ar gael yn y lolfeydd a thrwy gydol y dydd. Mae'r gwasanaeth wedi cael sgôr hylendid bwyd o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf y gellir ei chael.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn adeilad un llawr a adeiladwyd yn bwrpasol sy'n cynnwys llety ar wahân ar gyfer pobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia, yn ogystal ag uned adsefydlu a llety preswyl. Mae digon o le i'r bobl y tu mewn a'r tu allan. Pan wnaethom gyrraedd, roedd y drysau allanol wedi'u cloi er mwyn atal mynediad heb awdurdod, ac roedd mesurau diogelwch eraill ar waith megis gwirio manylion adnabod a llofnodi llyfr ymwelwyr.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn gyfforddus, yn gynnes ac nid oes unrhyw arogleuon gwael. Mae ardaloedd cymunedol mawr wedi'u haddurno'n hyfryd ac wedi'u dodrefnu'n briodol i'r bobl eu defnyddio, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Cwblhawyd rhywfaint o waith paentio ac ailaddurno a gosodwyd lloriau newydd mewn rhai ardaloedd. Mae mwy o waith adnewyddu wedi'i gynllunio. Mae'r ardal awyr agored yn hygyrch ac yn ddiogel, gydag ardaloedd palmantog a glaswelltog, seddi a blodau/planhigion mewn potiau. Hefyd mae cynlluniau ar waith i ad-drefnu rhai o'r ardaloedd yn y lolfa a'r gegin er mwyn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn fwy hygyrch i bawb sy'n byw yn y gwasanaeth. Gwelsom fod ardaloedd personol y bobl wedi'u gosod mewn modd sy'n adlewyrchu eu dewisiadau unigol a'u hanghenion gofal.

Gall y bobl dreulio amser yn eu hystafelloedd gwely eu hunain neu yn ardaloedd cymunedol y cartref dan do ac yn yr awyr agored. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli ac mae gan rai ohonynt gyfleusterau en-suite y gellir eu defnyddio. Mae trefniadau addas ar waith i'r tîm o staff roi gwybod am unrhyw faterion cynnal a chadw/gwaith atgyweirio er mwyn gallu mynd i'r afael â'r rhain, ac mae cynlluniau ar waith i ymgymryd â gwaith pellach i ailaddurno ac adnewyddu'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored. Mae prosesau hylendid a rheoli heintiau da ar waith er mwyn lleihau risgiau croes-heintio. Gall y staff gael gafael ar gyfarpar diogelu personol yn hwylus a gwelsom fod cyflenwadau da ar gael yn y gwasanaeth.

Caiff meddyginiaethau a gwybodaeth gyfrinachol arall eu storio'n ddiogel fel arfer. Mae'r ardaloedd cyfyngedig wedi'u cloi a dim ond pobl awdurdodedig all gael mynediad iddynt.

Mae gweithdrefnau hefyd ar waith hefyd i sicrhau iechyd a diogelwch y bobl yn y gwasanaeth. Mae cofnodion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch megis tystysgrifau nwy a thrydan, Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) a gwiriadau diogelwch dŵr yn cael eu cadw. Mae'r gwaith yr oedd ei angen yn dilyn arolygiad diogelwch tân blaenorol bellach wedi cael ei gwblhau. Roedd hwn yn faes i'w wella o'n harolygiad diwethaf. Mae asesiad risg diogelwch tân diweddarach ar waith, a gwnaed rhywfaint o waith mân ychwanegol yn deillio o hynny, neu mae trefniadau ar waith i wneud y gwaith hwnnw. Cynhelir gwiriadau diogelwch tân mewnol ac ymarferion ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân, ac mae

cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer y bobl, er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod beth i'w wneud o dan amgylchiadau o'r fath. Cynhelir archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd ac mae cynlluniau gweithredu ar waith.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau da ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddidrafferth ac er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cymorth a roddir i unigolion yn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn rhoi arweiniad o'r staff a chânt eu hadolygu pan fo angen. Darperir y gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben ac mae canllaw ysgrifenedig sy'n rhoi gwybodaeth i'r bobl am y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y weithdrefn gwyno ac am wasanaethau eirioli. Mae gwybodaeth arall am wasanaethau lleol, cymorth profedigaeth a chysylltiadau lleol hefyd ar gael.

Mae archwiliadau a gwiriadau ansawdd rheolaidd ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r cyfathrebu â'r perthnasau yn dda iawn. Mae'r cyfathrebu yn rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau a chael adborth am y gwasanaeth a rhannu syniadau ar gyfer gwelliannau posibl. Mae cyfarfodydd preswylwyr yn rhoi'r cyfle i'r bobl a'u perthnasau drafod y pethau sy'n bwysig iddynt gan gynnwys dewisiadau bwyd a gweithgareddau/teithiau sydd wedi'u cynllunio.

Mae gweledigaeth, gwerthoedd a diben y gwasanaeth yn glir ac yn amlwg yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis a chaiff adolygiadau sicrhau ansawdd eu cwblhau bob chwe mis. Mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys cwrdd â'r bobl, eu perthnasau a'r staff i gael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r adolygiad sicrhau ansawdd bob chwe mis hefyd yn edrych yn ofalus ar amrywiaeth o agweddau ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu megis asesiadau amgylcheddol, cwynion/canmoliaeth, diogelu, damweiniau/digwyddiadau, staffio a recriwtio. Caiff cynlluniau gweithredu eu llunio ar gyfer unrhyw welliannau. Ystyrir canlyniadau arolygon boddhad hefyd.

Mae hyfforddiant gorfodol i'r staff yn cynnwys cymysgedd o hyfforddiant wyneb yn wyneb a hyfforddiant ar-lein er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Yn ogystal, maent yn cael hyfforddiant arbenigol fel hyfforddiant ar ddementia a hyfforddiant ar reoli cwympiadau. Mae'r gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn cael sesiynau goruchwylio

1:1 yn rheolaidd i'w galluogi i ystyried eu llesiant a'u datblygiad proffesiynol eu hunain. Cynhelir cyfarfodydd tîm er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am newidiadau ac er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion. Mae'r darparwr hefyd yn cynnig cynllun Prentisiaeth er mwyn datblygu sgiliau priodol sy'n gysylltiedig â gweithio yn y sector gofal. Mae'r staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru ac yn eu deall ac mae polisi ar waith. Mae'r dogfennau recriwtio yn gyfredol ac mae gwiriadau priodol wedi cael eu cynnal gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru neu wrthi'n cofrestru, fel sy'n briodol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw breswylwyr sy'n siarad Cymraeg yn y gwasanaeth. Dywedodd y tîm rheoli wrthym fod hyfforddiant Cymraeg ar gael i'r staff a bod rhai ohonynt wrthi'n dysgu ar hyn o bryd. Mae dogfennau fel y datganiad o ddiben neu'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gwybodaeth arall ac arwyddion o amgylch y cartref hefyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Polisi Iaith Gymraeg ar waith gan y darparwr.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 57 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod gwaith Diogelwch Tân yn cael ei wneud yn brydlon i leihau'r risg o dân yn y gwasanaeth | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/05/2024